**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/1094/23

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

12 Mehefin 2023

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu y bydd Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 yn cael eu gosod yn fuan gerbron y Senedd.

Bydd y rheoliadau yn cefnogi'r broses o roi'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) ar gyfer pecynwaith ar waith. Bydd y cynllun hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gymryd cyfrifoldeb dros effaith amgylcheddol y pecynwaith y maent yn ei roi ar y farchnad drwy eu gorfodi i dalu am gostau casglu a gwaredu'r deunydd hwn pan fo'n troi yn wastraff. Bydd hyn yn rhoi cymhelliant allweddol i gynhyrchwyr leihau swm y pecynwaith yn ogystal â gwella'r graddau y gellir ailgylchu pecynwaith.

Bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr pecynwaith gasglu data, ac mewn rhai amgylchiadau, adrodd am ddata ynghylch faint o becynwaith y maent yn ei roi ar y farchnad, a pha fath yw'r deunydd hwnnw. Mae angen y data hyn er mwyn cyfrifo'r ffioedd y bydd angen i gynhyrchwyr eu talu o dan y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith.

Bydd y data a gesglir o dan y rheoliadau hyn yn ystod 2023 yn cael eu defnyddio i gyfrifo ffioedd cynhyrchwyr a thaliadau i awdurdodau lleol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Bwriedir y bydd y gofynion hyn mewn lle am gyfnod byr dros dro, ac y byddant wedi hynny yn cael eu dirymu a'u disodli gan y rheoliadau a fydd yn rhoi'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith ar waith, gan gynnwys darpariaethau adrodd am ddata.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.